Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 24th September 2018** at 7.55pm

**PRESENT: -** His Worship the Mayor, Councillor J Wynn Jones
The Deputy Mayor, Councillor J Wyn Williams

Councillors: -

| | | |
|---|---|---|
| Ifan James (Vice-Chairman) | Keith Jones | Salik Rahman |
| Derek Hainge | J M Martin | Mair Rowlands |
| Medwyn Hughes | Enid Parry | G O Roberts |
| Owen Hurcum | N Pickavance | Luke Tugwell |
| H Wyn Jones | | |

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

**103/18 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Mrs L Day, Dylan Fernley, Elin Walker Jones and Gareth Roberts.

**104/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**
None.

**105/18 APPOINTMENT OF REPRESENTATIVES ON OUTSIDE BODIES**

**RESOLVED**: that the following vacancies be filled as follows :-

(i) One Voice Wales (reserve) - Salik Rahman
(ii) One Voice Wales Larger Council's Committee's (reserve) – Salik Rahman
(iii) Bangor University (UWB – Community Liaison Group – Owen Hurcum
(iv) School Governor Our Lady's - Salik Rahman
(v) North & Mid Wales Assoc. of Local Councils – John Michael Martin

**106/18 URGENT BUSINESS**

The Town Clerk reported that Gwynedd Council had launched a new consultation on "Which Services are important to you?" Comments and responses could be submitted on-line by 2 November 2018.

Councillor D Hainge reported that Saturday 29th September would launch the start of "Black History Month" with an event in Bangor. It was a month long pan Wales celebration of contributions made by people of African descent in Wales. The Mayor would open the programme of events.

**107/187 APPOINTMENT OF INTERNAL AUDITOR**

**RESOLVED** that Gwynedd Council Audit Service be re-appointed as the City Council's Internal Auditor for the year 2018/19.

**108/18 CAR PARK SCHEME**

The Town Clerk reminded Members of the previous debate on this scheme whereby a 10% levy could be added to car parking charges in the City to fund projects that were of benefit to the locality in terms of Environment, Social or Economic. On 6 July the Town Clerk had circulated full details of the scheme and the finances available.

The Committee had a full and considered debate on the benefits and disbenefits of adopting such a scheme.

There appeared to be some uncertainly as to whether the sum of money involved would be worth the effort and increased car park fees of 10%. Also the City Council would have to identify particular schemes or projects prior to making a decision to the offer up.

**RESOLVED**: that this matter be considered initially by the sub-group set up to look at Gwynedd Services by the Planning & Amenities Committee (Minute 100/18).

**109/18 PIER UPDATE & EXPENDITURE**

The Town Clerk reported progress at the Pier head which was now the main focus of the repair and refurbishment works.
He also reported upon the financial position including figures for budget, commitments, projections and suppliers of goods and services. The current and projected expenditure schedules together with list of payees had been shared with and approved the Financial Approvers in accordance with Standing Orders.
**RESOLVED**: that the report be received, noted and that the financial position be approved and figures noted.

**110/18 FINANCIAL MATTERS**

a) **Invoices for Payment -** It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £15,736.37 had been approved.

b) **Quarterly Accounts -** The quarterly accounts for the 1st quarter (April – June 2018) of the financial year were reported, this included both the revenue and capital budgets. Some members expressed concern that there were nearly three months old but accepted that there had not been a Finance & General Purposes Committee since then.

In order to have the most up to date cleared monthly figures it would be necessary to either circulate by e-mail, or report into the more regular Planning & Amenities Committee or Council Meetings along with the invoice schedules.

**RESOLVED**: that regular update of Summary Income & Expenditure reports be circulated with the papers of any appropriate meeting but the main focus for financial matters and decisions would automatically be the Finance & General Purposes Committee.

---

The Meeting ended at 8.55pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **Nos Lun, 24ain o Fedi 2018** am 7.55 y.h.

**PRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd J Wynn Jones
Y Dirprwy Faer y Cynghorydd J Wyn Williams

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorwyr | Ifan James (Is-gadeirydd) | Keith Jones | Salik Rahman |
| | Derek Hainge | J M Martin | Mair Rowlands |
| | Medwyn Hughes | Enid Parry | G O Roberts |
| | Owen Hurcum | N Pickavance | Luke Tugwell |
| | H Wyn Jones | | |

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

**103/18 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs L Day, Dylan Fernley, Elin Walker Jones, a Gareth Roberts.

**104/18 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**105/18 PENODI CYNRYCHIOLWYR AR FUDIADAU ALLANOL**

**PENDERFYNWYD**: llenwi'r swyddi gwag canlynol fel a ganlyn :-

(i) Un Llais Cymru (wrth gefn) – Salik Rahman
(ii) Un Llais Cymru Pwyllgor Cynghorau Mwyaf (wrth gefn) – Salik Rahman
(iii) Prifysgol Bangor - Grŵp Cyswllt Cymunedol - Owen Hurcum
(iv) Llywodraethwr Ysgol Ein Harglwyddes – Salik Rahman
(v) Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru – John Michael Martin

**106/18 MATERION BRYS**

Adroddodd Clerc y Dref fod Cyngor Gwynedd wedi lansio ymgynghoriad newydd ar "Pa Wasanaethau sy'n bwysig i chi?" Gellir anfon sylwadau ac ymatebion ar-lein erbyn 2 Tachwedd 2018.

Adroddodd y Cynghorydd D Hainge fod dydd Sadwrn, 29 Medi yn lansio cychwyn "Mis Hanes Pobl Dduon" gyda digwyddiad ym Mangor. Dathliad mis cyfan drwy Gymru gyfan yw hwn gyda chyfraniadau gan bobl o dras Affricanaidd yng Nghymru. Byddai'r Maer yn agor y gyfres o ddigwyddiadau.

**107/18 PENODI ARCHWILYDD MEWNOL**

**PENDERFYNWYD** ailbenodi Gwasanaeth Archwilio Cyngor Gwynedd fel Archwilydd Mewnol Cyngor y Ddinas am y flwyddyn 2018/19.

**108/18 CYNLLUN MAES PARCIO**

Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau am y drafodaeth flaenorol ar y cynllun hwn ble gellid ychwanegu lefi o 10% ar ffioedd parcio yn y Ddinas i ariannu prosiectau a oedd o fudd i'r ardal yn Amgylcheddol, Cymdeithasol neu Economaidd. Ar 6 Gorffennaf roedd Clerc y Dref wedi anfon manylion llawn y cynllun a'r cyllid oedd ar gael.

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth lawn ac ystyriol am fanteision ac anfanteision mabwysiadu cynllun o'r fath.

Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a oedd y swm o arian dan sylw yn werth yr ymdrech a'r ffioedd 10% yn uwch am barcio. Hefyd byddai'n rhaid i Gyngor y Ddinas nodi cynlluniau neu brosiectau arbennig cyn gwneud penderfyniad i ymrwymo i'r cynnig.

**PENDERFYNWYD**: y byddai'r mater yn cael ei ystyried i ddechrau gan yr is-grŵp a sefydlwyd i edrych ar Wasanaethau Gwynedd gan y Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau (Cofnod 100/18).

**109/18 DIWEDDARIAD AM Y PIER**

Adroddodd Clerc y Dref ar y cynnydd ym mhen draw'r Pier lle'r oedd y rhan fwyaf o'r gwaith trwsio ac adnewyddu yn digwydd bellach. Adroddodd hefyd ar y sefyllfa ariannol yn cynnwys y ffigyrau ar gyfer y gyllideb, ymrwymiadau, amcanestyniadau a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. Roedd y rhestri gwariant cyfredol a'r rhai amcanestynedig ynghyd â rhestri'r rhai oedd i'w talu wedi'u rhannu i'r Cymeradwywr Ariannol ac wedi cael sêl bendith y rheiny yn unol â'r Rheolau Sefydlog.
**PENDERFYNWYD**: derbyn a nodi'r adroddiad, a chymeradwyo'r sefyllfa ariannol gan nodi'r ffigyrau.

**110/18 MATERION CYLLID –**

**a)** **Anfonebau i'w talu -** Nodwyd fod anfonebau fel ag y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £15,736.37 wedi cael eu cymeradwyo.

b) **Cyfrifon Chwarterol –** Adroddwyd ar y cyfrifon chwarterol am chwarter cyntaf (Ebrill – Mehefin 2018) y flwyddyn ariannol. Roedd y rhain yn cynnwys y cyllidebau refeniw a chyfalaf. Mynegwyd pryder gan rai Aelodau eu bod bron yn dri mis oed ond derbyniwyd na fu Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol ers hynny.

Er mwyn cael y ffigyrau misol mwyaf diweddar a gliriwyd, byddai angen naill ai eu hanfon drwy e-bost, neu adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau mwy rheolaidd neu Bwyllgorau'r Cyngor ynghyd â rhestr yr anfonebau i'w talu.

**PENDERFYNWYD**: fod adroddiadau rheolaidd ar Grynodeb o Incwm a Gwariant yn cael eu danfon gyda phapurau unrhyw gyfarfod priodol ond mai'r prif fan trafod i faterion a phenderfyniadau ariannol fyddai'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55pm